

Canllawiau i landlordiaid

Rhaid hefyd i'r landlord roi hysbysiad i'r cyd-ddeiliaid contract eraill o dan adran 230(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (**Ffurflen RHW33**) yn dweud bod y landlord yn credu bod y cyd-ddeiliad contract yn torri adran 55 o'r Ddeddf honno ac y bydd y landlord yn gwneud cais i'r llys am orchymyn sy'n terfynu hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract hwnnw o dan y contract.

Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn

Caiff y landlord wneud cais i'r llys unrhyw bryd cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B.

Canllawiau i ddeiliaid contract

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthych fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i ddod â'ch meddiannaeth o'r annedd a nodir yn Rhan C i ben. Dylech ei ddarllen yn ofalus a gofyn am gyngor am eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Gall achos llys ddechrau yn union ar ôl i'r landlord ddarparu'r hysbysiad hwn i chi.

Os oes gennych unrhyw amheuan neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn gyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddiartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.